**Carl Sargeant AC / AM**

**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**The Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

David Melding AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd. CF99 1NA.

10fed Mehefin 2015

Annwyl David

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu fy mod wedi gosod Offeryn Memorandwm Cydsyniad Statudol (Memorandwm) mewn perthynas â Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Diwygiadau Amrywiol) 2015 ("y Rheoliadau") a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar 5 Mehefin. Mae'r rheoliadau yn cynnwys diwygiadau i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfer Cymru. Hoffwn roi gwybod i chi nad wyf, er fy mod wedi gosod y Memorandwm, yn bwriadu cyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol.

Mae'r Rheoliadau yn ymwneud â throsi deddfwriaeth newydd yr Undeb Ewropeaidd (UE) sy'n diweddaru'r rhestr o eiddo gwastraff peryglus a'r rhestr o wastraff, i newid y ffordd mae gwastraff peryglus yn cael ei asesu a'i ddosbarthu. Mae'r Rheoliadau yn cynnwys diwygiadau i adran 62A o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ar gyfer Cymru a Lloegr, a wnaed o ganlyniad i ddiweddaru'r rhestr o eiddo gwastraff peryglus a'r rhestr o wastraff. Mae'r Memorandwm (y mae copi ohono yn amgaeedig) yn egluro'n fanylach y cefndir i'r diwygiadau sy'n dechnegol eu natur.

Rwyf wedi gosod y Memorandwm yn unol â'r gofyniad o dan Reol Sefydlog  30A i "aelod o'r llywodraeth .. [i] .. osod memorandwm (" memorandwm cydsyniad offeryn statudol ") mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol perthnasol wedi'u osod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig gan Weinidogion y DU ". Rwyf yn ystyried bod y Rheoliadau yn offeryn statudol perthnasol oherwydd eu bod yn gwneud darpariaeth yn ymwneud â Chymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ac nid ydynt yn ddarpariaethau cysylltiedig neu ganlyniadol sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn negyddol yn y Senedd, ac felly cawsant eu gwneud cyn iddynt gael eu gosod, a heb fod unrhyw Aelod Seneddol yn deisyfu yn erbyn, byddant yn dod i rym ar 1 Gorffennaf. Mater i chi benderfynu a ydych yn dymuno, fel y pwyllgor cyfrifol y cyfeirir ato o dan Reol Sefydlog 30A, ystyried ac adrodd ar y Memorandwm.

Rwyf wedi ystyried yn ofalus a ddylwn i fynd ymlaen i gyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol 30A.10, i'w drafod wedi i'r 35 diwrnod a ganiateir ar gyfer craffu gan y pwyllgor cyfrifol ddod i ben. Nid oes unrhyw ofyniad ar Lywodraeth Cymru i wneud hynny, wrth gwrs, ond fel rheol byddem yn cyflwyno cynnig fel bod y Cynulliad yn gallu rhoi ei ganiatâd, neu beidio, cyn i'r offeryn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line  0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg  0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*  *Printed on 100% recycled paper*

statudol perthnasol gael ei wneud.

Yn yr achos hwn, gan fod y Rheoliadau eisoes wedi'u gwneud, yr wyf wedi penderfynu na fyddaf yn mynd ymlaen i osod cynnig, gan y byddai hynny'n arwain at y Cynulliad yn trafod ac yn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd wedi i'r offeryn statudol perthnasol gael ei wneud. Byddai'n rhaid i bob achos gael ei ystyried yn ôl ei rinweddau, ond yn y Rheoliadau mae’r diwygiadau dan sylw yn dechnegol eu natur ac nid ydynt, yn eu hunain, yn gwneud newidiadau sylweddol i bolisi. Nid wyf yn credu bod gwerth mewn cynnal dadl yn y Cynulliad ynghylch a ddylid rhoi caniatâd i ddarpariaeth mewn Rheoliadau sydd eisoes wedi'u gwneud, a gan fod y ddarpariaeth o dan sylw yn ganlyniadol o ran natur ac ddim yn newid polisi sylweddol. Wrth gwrs, mae'n dal i fod yn agored i unrhyw Aelod o'r Cynulliad, os yw’n yn teimlo'n gryf y dylai'r Memorandwm cael ei drafod, i osod cynnig i gael dadl ar hwn yn y Cyfarfod Llawn.

Bydd y Pwyllgor, wrth gwrs, yn cael cyfle llawn i graffu ar y newidiadau yr ydym yn eu gwneud i'n deddfwriaeth i weithredu newidiadau’r UE pan fyddwn yn gosod Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2015 tua 20 Mehefin, 2015.

Hyderaf y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir



**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources